# Paentio wal

Family Maths Toolkit

**Roedd Maciez, peintiwr a phapurwr, yn paentio ystafell fyw. Canfu fod 1/5 o dun paent yn gorchuddio 2.5 metr sgwâr o wal.**



Faint o wal y byddai tun cyfan yn ei orchuddio? Amcangyfrifwch faint o ganiau o'r un paent y byddai arnoch eu hangen i baentio waliau eich ystafell wely.

Sylwodd Maciez fod ar y nenfwd angen paent gwyn a bod $^{1}/3$ o dun yn gorchuddio 3.5 metr sgwâr. Faint o nenfwd y byddai'r tun cyfan yn ei orchuddio?

Faint o ganiau a fyddai'n ofynnol i orchuddio nenfwd eich ystafell wely?

**Sylwadau'r teulu:**

**Sylwadau'r plentyn:**

**Cyswllt Cwricwlwm**

Defnyddio ffracsiynau i ddatrys problemau sy'n golygu cyfrifo a chymharu arwynebedd petryalau (yn cynnwys sgwariau), gan ddefnyddio unedau safonol yn achos metrau sgwâr.




Hawlfraint © NationalNumeracy 2021. Gwaherddir copïo, llogi a benthyca masnachol. Rhif elusen gofrestredig: 1145669

# Sw anifeiliaid anwes i blant

Family Maths Toolkit


**Yn y sw anifeiliaid anwes lleol, mae ar yr anifeiliaid angen llociau PETRYAL. (1 sgwâr = 1 m2)**

1. Lluniwch loc ieir sy'n gorchuddio arwynebedd o 36 $m^2$ yng nghornel dde-orllewinol y map. Tynnwch lun yr ieir a lliwiwch y lloc yn felyn.
2. Yng nghanol y map lluniwch loc cwningod sy'n gorchuddio 4 $m^2$. Tynnwch lun y cwningod a lliwiwch y lloc yn wyrdd.
3. Yn nwyrain y map lluniwch loc ŵyn sy'n gorchuddio 10 $m^2$. Tynnwch lun yr ŵyn a lliwiwch y lloc yn frown golau.
4. A allwch ffitio llociau eraill i mewn? Pa ardal sydd ganddynt a pha anifeiliaid sy'n cael eu cadw yno? Lluniwch lwybrau i uno pob un o'ch llociau.





Hawlfraint © NationalNumeracy 2021. Gwaherddir copïo, llogi a benthyca masnachol. Rhif elusen gofrestredig: 1145669




5. A allech lunio grid arall a dylunio eich sw eich hun ar gyfer anifeiliaid eraill? Gofalwch fod yr anifeiliaid mwyaf yn cael llociau â'r arwynebedd mwyaf fel arfer. A allwch gynnwys unrhyw lociau nad ydynt yn betryal?

D.S.: Darparwch bapur sgwâr ar gyfer y ddau ymarfer.

**Sylwadau'r teulu:**

**Sylwadau'r plentyn:**

**Cyswllt Cwricwlwm**

Cyfrifo arwynebedd petryalau gan ddefnyddio centimetrau/metra u sgwâr; gwybod am bwyntiau'r cwmpawd.



Hawlfraint © NationalNumeracy 2021. Gwaherddir copïo, llogi a benthyca masnachol. Rhif elusen gofrestredig: 1145669

# Peli golff

Family Maths Toolkit

**Mae diamedr pêl golff yn 4 cm. Mae ar dad Sally eisiau gwneud blwch a fydd yn dal 6 phêl golff fel y gall fynd ag e i'r cwrs golff lleol gyda'i ffrindiau.**

Pa faint (hyd a lled) a allai'r blwch fod? A oes yna fwy nag un ateb?



**Sylwadau'r teulu:**

**Sylwadau'r plentyn:**

**Cyswllt Cwricwlwm**

Mesur a chyfrifo perimedr siapiau mewn centimetrau.



Hawlfraint © NationalNumeracy 2021. Gwaherddir copïo, llogi a benthyca masnachol. Rhif elusen gofrestredig: 1145669